**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Ionawr 2017

Annwyl John,

**Bil yr Economi Ddigidol**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil uchod. Gofynnwyd dau gwestiwn gennych i helpu'r Pwyllgor yn ei ystyriaethau ac rwy'n darparu ymateb sylweddol yn y llythyr hwn.

***I ba raddau y mae'r goblygiadau ar hawliau dynol yn y cymalau perthnasol o'r Bil wedi cael eu hystyried yn ystod hynt y Bil yn Senedd y DU***

Wrth gyflwyno'r Bil i Dŷ'r Arglwyddi, yn unol ag adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, datganodd Arglwydd Ashton o Hyde (y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil) fod darpariaethau'r Bil, yn ei farn ef, yn gyson â hawliau'r Confensiwn.

O fewn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil mae Llywodraeth y DU yn trafod cydymffurfiaeth y Bil â deddfwriaeth ar hawliau dynol. O ran y cymalau perthnasol mae'r nodiadau'n datgan;

"*The digital government provisions cover a number of different areas but the broad purpose of the provisions is to provide for more effective data sharing between particular bodies in government in specified circumstances. The collection, storage and disclosure of identifying personal information by government about an individual in these circumstances will engage with that person's Article 8 rights. Any interference with an Article 8 right can be justified on the basis that it is in accordance with the law and is for a legitimate aim.*

*The digital government provisions are subject to detailed legislative frameworks and safeguards to ensure data is disclosed in specific circumstances by and to specified bodies for specified purposes. The safeguards also require the bodies to handle data in compliance with the Data Protection Act 1998 and the Regulation of Investigatory Powers Act 2000. The benefit of more effective data sharing between particular bodies provided for by Part 5 and*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*safeguards set out in each provision are considered to provide sufficient protection to persons whose Article 8 rights may be affected and Part 5 is considered to be compatible with the article*." (paragraffau 458 a 459).

Trafodwyd y cymalau perthnasol hefyd ar gamau amrywiol o'r broses o ystyried y Bil.

***I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru'n fodlon bod y cymalau hyn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar hawliau dynol, a sut y daeth i'r casgliad hwnnw***

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu arfarniad Llywodraeth y DU o gydymffurfiaeth y cymalau perthnasol â hawliau'r confensiwn fel y datganwyd gan Arglwydd Ashton ac fel y nodwyd yn y nodiadau esboniadol i'r Bil, ac mae'n fodlon ar hynny.

Fel y mae'r pwyllgor wedi cydnabod, mae'r Bil yn cynnwys nifer o gamau diogelu sydd â'r nod o sicrhau dull diogel o rannu data. Bydd y cymalau perthnasol yn gweithredu o fewn y fframwaith diogelu data sy'n bodoli eisoes a sefydlwyd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, ac mae'r Bil yn darparu'n benodol bod yn rhaid i'r broses o rannu gwybodaeth bersonol at y dibenion rhagnodedig fod yn unol â'r Ddeddf honno (cymal 33(8)), 42(8), 50(8) a 58(2)). Yn ogystal, mewn perthynas â rhannu data personol at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus, dyled a thwyll, gwneir darpariaeth benodol bellach o fewn cymalau 34, 43 a 51 ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth bersonol. Nod y cymalau hyn yw sicrhau mai dim ond i bersonau priodol ac at ddefnydd priodol y gellir datgelu gwybodaeth bersonol a dderbynnir o dan y pwerau perthnasol, ac mae'r cymalau'n cyflwyno troseddau ar gyfer datgelu gwybodaeth bersonol yn anghyfreithlon, lle y gwneir y datgeliad anghyfreithlon yn fwriadol neu'n ddiofal.

Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi codau ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth bersonol o dan y pwerau perthnasol. Rhaid i unrhyw godau o'r fath, y mae'n rhaid eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU, fod yn gyson â chod rhannu data'r Comisiynydd Gwybodaeth a gyhoeddir o dan adran 52B o Ddeddf Diogelu Data 1988, a dylid eu cyhoeddi mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r gweinyddiaethau datganoledig. Ar 19 Hydref 2016 cyhoeddodd Llywodraeth y DU Godau Ymarfer drafft, y mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau arnynt;

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/567070/Public_Service_Delivery__Fraud_and_Debt_Code_of_Practice__2___1_.pdf

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/567074/Research_Code_and_Accreditation_Criteria__1___2_.pdf

Mae'r Codau hyn yn rhoi eglurder a thryloywder ynghylch sut y bydd y pwerau yn Rhan 5 o'r Bil yn gweithredu. Maent yn darparu ar gyfer cydymffurfio â phrosesau llym wrth rannu data o dan y cymalau perthnasol. Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n gallu rhannu data personol yn unol â'r cymalau perthnasol ystyried y Codau wrth ddefnyddio'r pwerau hyn.

Bydd Gweinidogion Cymru yn rhagnodi mewn rheoliadau, a fydd yn destun cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, pa gyrff cyhoeddus yng Nghymru a fydd yn cael manteisio ar y pwerau rhannu data mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, dulliau darparu, dyled a thwyll. Yn unol ag adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd angen i unrhyw reoliadau sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol gydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y mesurau diogelu a gynhwysir o fewn y darpariaethau yn rhoi diogelwch digonol i bersonau y gallai'r cymalau perthnasol effeithio ar

eu hawliau o dan erthygl 8, ac mae'n fodlon felly bod y cymalau perthnasol yn cydymffurfio â hawliau'r confensiwn.

***Diwygiad posibl i'r Memorandwm***

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch hysbysu hefyd o'm disgwyliad i gyflwyno Memorandwm diwygiedig. Rwyf wrthi'n trafod diwygiad i gymal 65 o'r Bil gyda Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd mae'r cymal hwn yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ddatgelu gwybodaeth nad yw'n wybodaeth adnabod (h.y. gwybodaeth nad yw'n wybodaeth bersonol) lle yr ystyrir y byddai datgelu'r wybodaeth o fudd i'r cyhoedd. Byddai'r diwygiad a drafodir yn golygu y byddai modd i Awdurdod Refeniw Cymru wneud yr un datgeliadau gan sicrhau cydraddoldeb ar draws awdurdodaethau treth y DU.

Gobeithiaf y gellir cytuno ar ddiwygiad i'r Bil a'i gyflwyno cyn gynted â phosibl. Yn dilyn hynny fe wna i gyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig. Rwy'n ysgrifennu cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o hyn cyn terfynu eu hadroddiad. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod cydraddoldeb i Awdurdod Cyllid Cymru yn fater pwysig i'w sicrhau, a bydd yn tueddu i gefnogi unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar y sail honno.



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government